

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r Awdurdod Lleol dderbyn cyfeiriad (Ymholiad ADY)?

- Mae cyfeirio plentyn i sylw'r Awdurdod Lleol yn cychwyn **proses statudol** sydd yn rhoi cyfrifoldeb ar Awdurdod Lleol i ddod i benderfyniad a **oes gan y plentyn ADY ai peidio**.
- Ar sail y penderfyniad, bydd gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i lunio a chynnal **Cynllun Datblygu Unigol (CDU)**.
- Rhaid gwneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac o fewn y cyfnod o **12 wythnos** ar ôl iddo gael ei ddwyn i sylw'r Awdurdod Lleol y gallai fod gan y plentyn ADY.
- Nid oes angen i'r Awdurdod Lleol gydymffurfio â'r amserlen statudol os nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

Prif egwyddorion y system

- Dynodi cydlynedd i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sy'n ofynnol i wneud penderfyniad.
- Bydd y cydlynedd yn gallu darparu gwahanol lefelau o gymorth a chefnogaeth i gefnogi plant a'u teuluoedd i gymryd rhan mor llawn â phosibl yn y broses.
- Bydd y system ADY yn defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sef proses holistig i adnabod a chanfod y ffordd orau o gefnogi'r plentyn, wrth sicrhau fod y plentyn yn ganolog i unrhyw gynllunio a wneir ar ei gyfer/chyfer.



Casglu tystiolaeth a chyngor

- Bydd y Cydlynnydd yn cynnal cyfarfod cychwynnol gyda'r plentyn a'r rhiant i drafod: y broses ADY, anghenion eu plentyn, beth sy'n gweithio / ddim yn gweithio a dyheadau'r plentyn a'r teulu.
- Bydd yn bosibl derbyn gwahoddiad a chyfrannu'r wybodaeth ar y system CDU ar-lein
- Bydd yn bosibl rhoi cais statudol gan Awdurdod Lleol am wybodaeth neu gymorth gan bersonau perthnasol. Bydd rhaid iddynt gydymffurfio o fewn 6 wythnos.

Beth sy'n digwydd efo'r dystiolaeth?

- Bydd y Cydlynnydd yn cyflwyno'r dystiolaeth i sylw Aelodau Panel Cymedroli ADY.
- Bydd aelodau'r Panel yn ystyried y wybodaeth a'r dystiolaeth yn ofalus ac yn penderfynu a oes gan y plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol ai peidio.

Penderfyniad nad oes gan y plentyn ADY

- Hysbysu plentyn / rhiant am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.
- Bydd yr hysbysiad hefyd yn nodi unrhyw gamau y bydd yr Awdurdod Lleol yn eu cymryd i sicrhau bod anghenion (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu.
- Gall plentyn / rhiant drafod y mater ymhellach gyda'r Awdurdod Lleol. Rhoddir manylion pellach ynghylch hyn yn yr Hysbysiad, gan gynnwys gwybodaeth am yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.



Beth sydd yn digwydd ar ôl penderfynu bod gan plentyn ADY?

- Os bydd y Panel Cymedroli yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, rhaid llunio Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer y plentyn.
- Cynllun statudol yw CDU sydd yn cynnwys disgrifiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a roddir yn ei lle i gefnogi anghenion dysgu y plentyn.
- Rhennir pamffled gyda'r Hysbysiad penderfyniad ADY sy'n manylu ar beth a sut mae CDU yn cael ei lunio.

Cyfarfod CDU a derbyn copi drafft o'r CDU

- Bydd y Cydlynnydd yn arwain y cyfarfod i lunio CDU er mwyn casglu gwybodaeth a llunio **deilliannau a thargedau cytunedig** sy'n canolbwyntio ar y plentyn.
- Bydd copi drafft o'r CDU yn cael ei rannu gyda'r plentyn / rhiant er mwyn rhoi cyfle i drafod unrhyw fater, cyn i'r CDU cael ei gyflwyno i sylw'r Panel Cymedroli.

Panel Cymedroli ADY

- Cymedrolir y Cynllun ym Mhanel Cymedroli'r Awdurdod Lleol.
- Dogfen electronig fyw yw'r CDU fydd yn cael ei hadolygu'n gyson, yn ôl yr angen, ac o leiaf bob 12 mis.
- **Rhoddir copi o'r CDU.** Rhoddir mynediad i'r CDU i bawb sy'n ymwneud â'r plentyn.

